| |
|---|
| Gweithwyr Cymdeithasol x 3 – Gwasanaethau Gofal Maeth |
| Parhaol, 37 awr yr wythnos<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso<br>Graddfa 05 (SCP 24 – 27) £28,672 i £31,346<br><br>Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhau<br>Graddfa 06 (SCP 28 – 31) £32,234 i £34,728<br><br>Lleoliad: Swyddfeydd y Sir, y Fflint, Sir y Fflint |
| Bydd y rôl yn hanfodol i ddatblygu ein cymuned gofal maeth drwy asesu a datblygu gofalwyr newydd a chefnogi ein gofalwyr presennol.<br><br>Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn gwneud gwaith cyswllt, yn cynnal cyswllt rheolaidd gyda gofalwyr maeth ac yn darparu cefnogaeth, arweiniad a goruchwyliaeth i ofalwyr.<br><br>Bydd angen i'r deiliad swydd fod yn arloesol, creadigol, cefnogol ac yn ymwybodol o alw gofal cyfoes ac yn sicrhau fod y gymuned Gofal Maeth ar y cyd â'n prosiect Mockingbird datblygol yn darparu trefniadau gofal gwych i'n Plant Sy'n Derbyn Gofal.<br><br>Gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, mae'r swydd yn gofyn am ymroddiad, hyblygrwydd a dealltwriaeth drylwyr o holl safonau Maeth perthnasol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru. Mae'r swydd yn gofyn am y gallu i feithrin cydberthnasau effeithiol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol a chreu partneriaethau cydweithredol cadarn gydag asiantaethau eraill. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos tystiolaeth o angerdd a phenderfyniad i fodloni gofynion y rôl hon.<br><br>Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Ddymunol.<br><br>Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru a gan fod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â:<br><br>Suzanne Johnston (Rheolwr Tîm) ar 01352 701000<br>Peter Robson (Rheolwr Gwasanaeth) ar 01352 701028<br><br>Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg. |